

Beibl Canllaw

Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod fis Awst bydd y *Beibl Canllaw* yn cael ei gyhoeddi.

Pris y Beibl Canllaw fydd £25. Mae hynny'n rhesymol iawn o'i gymharu â chyfrolau tebyg yn Saesneg. Ond mae modd cael y gyfrol am £20 trwy archebu nifer ohonynt. Felly, os oes rhywun am brynu copi am £20, rhwch eich enw i'r Gweinidog ar unwaith (erbyn HENO, nos Sul, Gorffennaf 12). Ffoniwch neu anfonwch neges e-bost (01286 872390 neu john.cilfynydd@btinternet.com).

Y mis nesaf - Deiniolen

Gorffennaf 19

5.00 p.m. - Mr Huw Fôn Roberts

Gorffennaf 26

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Awst 2

10.00 a.m. - Y Parchg Olwen Williams

Awst 9

Dim Oedfa

Awst 16

Dim Oedfa

Awst 23

10.00 a.m. a 5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Talybont

Gorffennaf 19

2.00 p.m. - Mr T Alun Williams

Gorffennaf 26

2.00 p.m. - Y Parchg Geraint Hughes

Mis Awst

Dim oedfaon yn ystod y mis

Y mis nesaf - Llanllechid

Gorffennaf 19

5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

Gorffennaf 26

2.00 p.m. - Y Parchg Tecwyn Roberts

Awst 2

10.00 a.m. a 5.00 p.m.

Uno yn Jerusalem, Bethesda

Awst 9

10.00 a.m. a 5.00 p.m.

Uno yn Jerusalem, Bethesda

Awst 16

10.00 a.m. a 5.00 p.m.

Uno yn Jerusalem, Bethesda

Awst 23

2.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Wyn Wiliam

Y mis nesaf - Llanberis

Gorffennaf 19

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts

Dim oedfa'r hwyr

Gorffennaf 26

10.00 a.m. a 5.00 p.m.

Mr Huw Fôn Roberts

Awst 2

10.00 a.m. - Cyfarfod Gweddi

5.00 p.m. - Y Parchg Olwen Williams

Awst 9

10.00 a.m. a 5.00 p.m.

Y Parchg Cath Williams

Awst 16

10.00 a.m. - Y Parchg Glenys Jones

5.00 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

Awst 23

10.00 a.m. - Y Parchg Iwan Llywelyn Jones

Dim oedfa'r hwyr



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 646: Dydd Sul, 12 Gorffennaf, 2015

Crefydd eithafol

Yn y gyfres 'Cymru: Dal i Gred?' a welwyd ar S4C y tair nos Sul diwethaf roedd y cyflwynydd Gwion Hallam yn datgan nad ydyw bellach yn credu yn Nuw er iddo fod yn Gristion brwd ar un cyfnod. Roedd yn ceisio gweld hefyd i ba raddau y mae pobl Cymru bellach wedi peidio â chredu yn Nuw.

Roedd y gyfres yn codi cwestiynau o bwys ynglŷn â chredu mewn unrhyw fath o dduw, ond yn arbennig o goffio cefndir Cristnogol Gwion, ynglŷn â chredu yn y Duw a'i datguddiodd ei hun yn y Beibl ac yn ei Fab Iesu Grist. Ar y naill law, mae Iesu'n dweud na all pobl fod yn golledig unwaith iddynt gredu ynddo. Ar y llaw arall, mae'n dweud bod modd i bobl ymddangos yn Gristnogion ond heb fod felly mewn gwirionedd. Byddai dweud fy mod wedi mwynhau'r gyfres yn anghywir, gan ei bod wastad yn drist clywed am bobl sydd wedi cefnu ar Grist. Mae'r cyflwynydd hwn yn gwybod digon am y Ffydd Gristnogol i ddeall pam y byddwn i a'm tebyg yn dweud hynny.

Un cwestiwn a ofynnai oedd, a fyddai wedi bod yn llai tebygol o gefnu ar ffydd pe byddai ei Gristnogaeth wedi bod yn 'llai eithafol'. Dau beth y daeth i fethu â'u credu, meddai, oedd uffern ac atgyfodiad Iesu. Tybed a fyddai crefydd fwy rhyddfrydol, heb bwyslais mawr ar gredoau sylfaenol y Beibl, wedi ei gwneud yn haws iddo ddal ei afael mewn rhyw fath o ffydd? Roedd wedi dod yn fwyfwy anodd dal gafael

yn y credoau a'r ysbryd cenhadol cryf a ddeuai gyda'r credoau hynny.

O bosibl fod y pethau hyn wedi ei gwneud yn anodd i lawer o bobl ddal gafael mewn ffydd. O bosibl hefyd y byddai crefydd heb y pethau hynny yn gallu dal gafael mewn pobl. Ond nid Cristnogaeth fyddai peth felly. Ar un wedd, mae Cristnogaeth yn grefydd eithafol, a ffydd y Cristion yn ffydd eithafol. Mae'r gair 'eithafol' mewn cyd-destun crefyddol yn awgrymu peth drwg, ond nid oes rhaid iddo fod felly. Mae modd i rywbeth fod yn eithafol a da. Onid ystyr bod yn 'eithafol ein ffydd' yw ein bod yn ymarfer ffydd ac yn byw ein ffydd i'r eithaf? Onid dyna mae Iesu Grist yn ei ofyn gennym? Crefydd eithafol yw Cristnogaeth – yn yr ystyr eich bod yn eithafol dros Iesu Grist. Pobl eithafol sy'n cysegru eu bywydau i Grist. Pobl eithafol sy'n rhoi heibio gyfleodd gwahanol er mwyn gwasanaethu Iesu. Pobl eithafol sy'n mynd yn genhadon i ben draw byd. Pobl eithafol sy'n mynnu rhoi'r capel a'i waith gyntaf, ac yn mynnu cyfrannu'n hael at yr achos er y gallen nhw wneud defnydd arall o'u harian prin. Onid pobl eithafol ddylem ni oll fod er mwyn Iesu Grist?

Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, un o ystyron y gair *eithafol* yw 'Yn dilyn argyhoeddiad (neu egwyddorion plaid) i'r eithaf'. Os felly, mae angen i bawb ohonom fod yn eithafol ein ffydd, yn yr ystyr ein bod yn dilyn Iesu i'r eithaf ym mhob dim.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn oedfa'r bore yn Capel Coch gan y Gweinidog. Bydd Picnic yr Ysgol Sul am 11.30 o'r gloch, ym Mharc Padarn os bydd yn dywydd braf neu yn y festri os bydd yn bwrw glaw. Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Ganon Idris Thomas. Diolch iddo am ei wasanaeth unwaith eto.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd aelodau Carmel, Llanllechid yn ymuno â'r oedfa MOLI yn Capel Coch heno ac estynnir croeso cynnes iddynt.

Gwasanaethir yn yr Oedfa Deulu yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog a chymerir rhan yn yr oedfa gan blant ac aelodau'r Ysgol Sul.

Cofion

Oedfa Gyflwyno

Fore Sul diwethaf cafwyd Gwasanaeth Gyflwyno yn Capel Coch dan arweiniad y Gweinidog. Croesawyd Elin Roberts (14 Stryd Ceunant) a David Fisher a'u a'u teuluoedd a'u ffrindiau wrth iddynt gyflwyno eu merch, Cadi Mai Fisher, a aned ym mis Ionawr, i ofal Duw ac i weddïau'r eglwys yn Capel Coch. Roedd yn oedfa arbennig iawn, a dymunwn bob bendith iddynt yn eu cartref yn Brighton. Wrth eu croesawu, cyfeiriodd Gareth Jones at hen daid Cadi, Mr Thomas John Roberts, a oedd wedi methu bod yn yr oedfa, ac anfonwn ein cofion cynhesaf ato ar ran pawb yn Capel Coch.

Priodas

Brynhawn ddoe, priodwyd Llifon James Jones (Bryn Gelli, Llanberis) a Bethan Helen Jones (Pwllheli) yn Capel Coch. Roedd yr oedfa yng ngofal y Gweinidog, a Gareth Jones oedd yr organydd. Roedd yn neithior yn Nant Gwrtheyrn.

Dymunwn bob bendith i Llifon a Bethan a'u mab bach, Tomos Cledwyn yn eu cartref yng Nghwm-y-glo.

Fel pob dydd priodas, roedd yn ddiwrnod arbennig i Llifon a Bethan a'u teuluoedd, ond roedd hefyd yn ddiwrnod arbennig i ni yn Capel Coch gan mai dyma'r tro

cyntaf i ni gael priodas yn y festri. Y festri wrth gwrs yw'r capel erbyn hyn, ac roedd yn edrych yn arbennig o hardd ddoe - mor hardd ag unrhyw gapel, a dweud y gwir. Roedd pawb oedd yno yn dweud yr un peth.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu i baratoi'r adeilad: pawb fu'n glanhau a phawb a gyfrannodd at y paent a'r nwyddau. Diolch yn fwyaf arbennig i Colin a Valerie am eu holl waith yn paentio a thacluso yn ystod y pythefnos diwethaf. Mae cyntedd y festri yn sicr wedi ei weddnewid, a graen arbennig ar y lle. Diolch yn fawr iawn am eich holl waith: mae'r eglwys ar ei hennill yn sicr.

MOLI

Croeso i aelodau Carmel Llanllechid i oedfa MOLI yn Capel Coch heno. Boed bendith Duw ar yr addoliad.

Henaduriaeth

Cynhelir Henaduriaeth Arfon yng nghapel Carmel (Arfon) am 6.30 o'r gloch nos Fercher, Gorffennaf 15.

Swper Haf Bwrlwm

Diolch yn fawr i Mrs Barbara Jones a Mr Neville Hughes a drefnodd Swper Haf criw Bwrlwm Bethlehem Talybont yng Nghlwb Golff Caernarfon nos Fawrth.

Pwyllgor y Gymdeithas

Ym Mhwyllgor Cymdeithas Undebol Deiniolen ddydd Iau ail etholwyd Mrs Jane Thorman Jones a Mrs Eirian Jones yn Ysgrifennydd a Thrysorydd. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu gwaith ers blyneddau. Trefnwyd siaradwyr ar gyfer y tymor nesaf.

Pwyllgor y Gymdeithas

Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas Undebol Llanberis tua diwedd y Bore Coffi fore Mawrth, Gorffennaf 14. Bydd angen ethol Ysgrifennydd newydd. Mae Miss Dilys Mai Roberts wedi gwneud y gwaith ers blyneddau ac wedi dweud mewn da bryd ers blwyddyn na fyddai'n dal ati ar ôl y tymor diwethaf yma.

Cwpan CIC

Cynhaliwyd Cwpan CIC i dimau pêl droed 5-yr-ochr oed uwchradd (Blwyddyn 7-10) dan nawdd Trobwynt yng Nghanolfan Gristnogol Tŷ Nant, Abererch nos Iau diwethaf. Daeth saith o dimau yno, o gyn belled â Llansannan. Diolch yn fawr i Andrew am drefnu'r cyfan, yn het gweithiwr Trobwynt y tro hwn. Ar ddiwedd y noson roedd digon o gwn poeth a byrgys i bawb, yn cynnwys y rhieni a'r cefnogwyr. Cafwyd tywydd ardderchog a daeth y noson i ben gyda sgws fer gan y Parchg Bryn Williams, Pwllheli (Llanrug gynt). Soniodd am Iesu Grist fel y person a'r peth 'go iawn' sy'n werth ei gredu a'i ddilyn.

Bron i mi anghofio! Y canlyniad? Am yr ail flwyddyn yn olynol, cirw CIC Capel Coch a enillodd y Cwpan, gan drechu Llithfaen o 5 gôl i 0 yn y rownd derfynol, gydag Elis Morris yn sgorio hat tric! Daeth y Cwpan nôl i Lanberis am flwyddyn arall, felly. Diolch i Dafydd am ei help efo'r dyfarnu, ac i Eira Morris am ei help i fynd â'r hogiau yno.

Gwyliau Blyneddol

Bydd y Gweinidog yn cychwyn ei fis o wyliau ddydd Gwener, Gorffennaf 17. Cysylltwch â swyddogion eich eglwys os bydd angen help arnoch yn ystod y mis nesaf.

Dyma rifyn olaf Gronyn am y tro. Cyhoeddir y rhifyn nesaf ddydd Sul, Awst 23.